

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cynllun Cydraddoldeb Comisiwn
y Cynulliad

2012–2016

Crynodeb



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:

Y tîm Cydraddoldeb a Mynediad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

T 0845 010 5500
www.cynulliadcymru.org
gwybodaeth@cymru.gov.uk
archebu@cymru.gov.uk

Cymerwch ran ar Facebook, YouTube, Twitter a Flickr.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Pwy ydym ni

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu adnoddau, eiddo a staff i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu fel sefydliad seneddol. Felly, mae gennym gyfrifoldebau fel cyflogwr ac fel sefydliad sy'n rhoi cymorth i Aelodau'r Cynulliad ac sy'n rhyngweithio â'r cyhoedd.

Ein cyfrifoldeb mewn perthynas â Chydraddoldeb

Mae gan Gomisiwn y Cynulliad gyfrifoldeb cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i:

- atal camwahaniaethu, aflonyddu neu erlid anghyfreithlon;
- datblygu cyfle cyfartal rhwng y rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol¹ a'r rheini nad ydynt; a
- meithrin perthynas dda rhwng y rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheini nad ydynt.

Mae rhan o'n cyfrifoldeb yn cynnwys cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb yn nodi'r ffordd y byddwn yn cyflawni'r dyletswyddau hyn.

Ein Gwerthoedd

Gall staff, Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd ddisgwyl i Gomisiwn y Cynulliad:

- hybu, parchu a gwerthfawrogi cyfle cyfartal ac amrywiaeth;
- herio a dileu aflonyddu a chamwahaniaethu;
- cydnabod rhwystrau i gydraddoldeb, mynediad a chyfranogiad, a'u chwalu;
- ymddwyn fel sefydliad sy'n esiampl o gyflogwr da a darparwr gwasanaeth hygyrch;
- anelu at sicrhau bod ein gweithlu'n gynrychioliadol o'n cymdeithas amrywiol;
- annog cyfranogiad ac ymgysylltiad ledled Cymru a'i ehangu;
- hybu agweddau positif a pherthynas dda rhwng gwahanol grwpiau o bobl.

¹ Mae'n anghyfreithlon i gamwahaniaethu yn erbyn unigolyn oherwydd unrhyw un o'r 'nodweddion gwarchodedig' yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y naw nodwedd warchodedig yw oed, anabled, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, a phriodas a phartneriaeth sifil.

Datblygu'n Cynllun Cydraddoldeb

Er mwyn datblygu'n Cynllun Cydraddoldeb, gwahodddwyd aelodau o'r cyhoedd a'n staff ni ein hunain yn ogystal ag Aelodau'r Cynulliad a'u staff i roi gwybod i ni am yr hyn y gallem ei wneud i hybu cydraddoldeb yn well i bawb. Cynlluniwyd holiadur ar-lein i'r cyhoedd yn gyffredinol ar ein gwefan a chyfieithwyd hwn i amrywiaeth eang o wahanol ieithoedd a fformatau er mwyn sicrhau y gallai cymaint o bobl â phosibl gael mynediad ato. Mae crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i'w weld [yma](#).

Prif nod ein Cynllun

Ar ôl casglu'r holl sylwadau ynghyd, nodwyd y nodau eang canlynol:

- gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae'r Cynulliad yn ei wneud a helpu pobl i gymryd rhan yn ein gwaith;
- sicrhau y gall pawb ddefnyddio'n hadeiladau a'n gwasanaethau;
- annog pobl o amrywiaeth o gefndiroedd i'n gweld fel lle cefnogol a chroesawgar i weithio;
- rhoi cymorth i'n staff fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i gyrraedd eu potensial llawn fel gweithwyr;
- darparu canllawiau a chynghor i Aelodau a'u staff i wneud eu gwaith yn effeithiol;
- ystyried materion yn ymwneud â chydraddoldeb wrth gynllunio'n gweithgareddau.

Rydym wedi datblygu camau i'n helpu i gyflawni'n hamcanion a gellir gweld y rhain yn ein Cynllun Cydraddoldeb llawn. Byddwn yn monitro'n cynnydd yn rheolaidd er mwyn asesu a fyddwn yn cyrraedd ein nodau o fewn yr amserlenni a ddewiswyd ac adroddir am hyn yn ein Hadroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol.

Gellir cael copïau o'r crynodeb hwn mewn fformatau ac ieithoedd hygyrch ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg gan:

Y Tîm Cydraddoldebau

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Caerdydd

CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8197

Ffôn testun: 029 2089 8601

E-bost: equalities.team@cymru.gov.uk